**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Aelodau Cynulliad

04 Mai 2018

Annwyl Aelod

Byddwch yn ymwybodol o gyhoeddiad Virgin Media ar 3 Mai ynghylch penderfyniad corfforaethol y cwmni i gydgrynhoi ei wyth canolfan gyswllt yn bedair canolfan. Ysgrifennaf atoch yn awr i roi'r newyddion diweddaraf i chi.

Mae Virgin Media wedi cadarnhau ei fwriad i gau canolfan Abertawe, yn amodol ar ganlyniad ymarfer ymgynghori dros 45 diwrnod lle y bydd yn barod i ystyried opsiynau. Mae 772 o bobl yn gweithio yno ar hyn o bryd, ac maent un ai wedi'u cyflogi gan Virgin Media neu gan y cwmni allanol Sitel. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion sefydlu tasglu o randdeiliaid allweddol a fydd yn ystyried opsiynau o safbwynt sicrhau cyflogaeth gynaliadwy a pharhaus yn Abertawe.

Rwy'n siomedig iawn ynghylch cyhoeddiad Virgin Media ac rwyf hefyd yn cydnabod y bydd yn gyfnod anodd i'r staff dan sylw. Nid yw'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu mewn unrhyw ffordd berfformiad y staff rhagorol sy'n gweithio i Virgin Media a Sitel. Mae'r tim wedi ennill gwobrau am wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid ac mae ganddynt sgiliau y mae galw mawr amdanynt ym myd busnes.

Mae fy swyddogion hefyd wrthi'n ystyried prosiectau eraill ar gyfer creu swyddi i'r staff a fydd yn colli eu gwaith ac maent yn cydweithio'n agos â Fforwm Canolfannau Cyswllt Cymru er mwyn pennu unrhyw gyfleoedd gwaith sy'n bodoli.

Byddaf yn hysbysu'r Aelodau cyn gynted ag y byddaf yn gwybod mwy am y sefyllfa.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.